# PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Chwefror 2020 am 2.00 pm ym Adeiladau'r Cyngor, Parlwr y Maer, Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2DP..

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Brencher Y Cynghorydd G Hughes

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr C Coppock
Ms M Dunning

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Ms A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd
Handy, Graduate Scrutiny Officer

**19 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a chroesawodd y Cynghorydd G. Hughes i'w gyfarfod cyntaf o'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol oherwydd natur gyfrinachol rhai eitemau, ac y byddai Eitem 8 yn cael ei thrafod yn gyntaf.

**20 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher y buddiant personol canlynol: "Rwy'n Ymddiriedolwr yr YMCA

**21 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019 yn rhai cywir

## 22 DATBLYGU FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU ASEDAU DIWYLLIANNOL YM MHONTYPRIDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned gyflwyniad i'r Aelodau ynglŷn ag adfer Canolfan Gelf y Miwni a'r cydgysylltu posibl o ran datblygiad yr YMCA.

Amlinellodd y cyflwyniad strwythur Canolfan Gelf y Miwni a'r cyfleoedd y mae ei ddyluniad pensaernïol gwreiddiol yn eu cynnig, er enghraifft, gwneud y Miwni yn fwy ynni effeithlon trwy ddefnyddio dŵr sy'n casglu ar y to. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod trafodaethau manwl wedi cael eu cynnal rhwng y Cyngor ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i lunio cynllun gwaith cyfalaf, a chynnig gweledigaeth hirdymor uchelgeisiol ar gyfer y Miwni, gan gynnwys adfer y bensaernïaeth wreiddiol a gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn creu lleoliad celf ac adloniant o bwysigrwydd rhanbarthol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Grŵp Llywio bod y Cabinet wedi cytuno ar gyfraniad refeniw o £105,000 ar gyfer 2020/21 er mwyn adfer Canolfan Gelf y Miwni.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymunedol ymlaen i roi cyflwyniad i'r Grŵp Llywio ynglŷn â chynlluniau'r Cyngor i ailddatblygu adeilad yr YMCA ym Mhontypridd. Bydd y lleoliad yma'n cynnwys gofod perfformio hefyd, er y bydd yn dal nifer llai o bobl na'r Miwni. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bwysigrwydd sicrhau bod y ddau leoliad yn cefnogi ei gilydd, a phwysigrwydd diogelu adeiladwaith yr adeilad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau am y cynlluniau ailddatblygu, fel y bwriad o greu theatr stiwdio, caffi ac oriel.

Cafwyd trafodaethau, ac aeth nifer o'r Aelodau ati i ganmol y cynlluniau cyffrous ac uchelgeisiol. Pwysleisiodd un Aelod bwysigrwydd sicrhau y bydd mynedfa i'r anabl ar du blaen adeilad yr YMCA. Pwysleisiodd un Aelod hefyd fod cyfleoedd enfawr ar y gweill, yn enwedig o ran y metro a'r cyfle i ddenu ymwelwyr i'r cymoedd. Cytunodd y Grŵp Llywio y bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2022 yn gyfle enfawr i ddenu ymwelwyr i'r rhanbarth, ac y bydd y metro a'r Miwni yn rhoi cyfle i'r Cyngor fanteisio ar y cyfleoedd yma.

Rhybuddiodd Aelod o'r Grŵp Llywio nad yw asedau diwylliannol yn gweithio oni bai fod sylfaen economaidd i'w cefnogi, a nododd pa mor bwysig yw sicrhau bod yr ailddatblygiadau'n cael cefnogaeth gadarn gan y Cyngor. Aeth y sgwrs yn ei blaen, a phwysleisiodd Aelodau'r Grŵp Llywio bwysigrwydd manteisio ar nifer yr ymwelwyr a'r myfyrwyr i'r Brifysgol ym Mhontypridd, a'r buddion diwylliannol y gallai hyn eu cynnig i'r rhanbarth.

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod gweithio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Awen mewn perthynas â'r Miwni yn weledigaeth hirdymor uchelgeisiol, a bod yr ailddatblygiad yn cyd-fynd â strategaeth ailddatblygu strwythurau canol tref ehangach y Cyngor. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Cabinet wedi ymrwymo i gynnal ei weledigaeth hirdymor ar gyfer Canolfan Gelf y Miwni ac adeilad yr YMCA.

Canmolodd y Grŵp Llywio'r cynlluniau uchelgeisiol, fodd bynnag, pwysleisiodd un Aelod bwysigrwydd sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth ar waith ledled y cymoedd er mwyn cefnogi strategaeth y Cyngor.

Cytunodd y Grŵp Llywio bod y ddemograffig yn newid ym Mhontypridd, a chytunwyd bod yn rhaid i'r Cyngor fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle yn y maes yma. Canmolodd yr Aelodau fuddsoddiad parhaus y Cyngor yn y celfyddydau, yn enwedig ar adegau o lymder.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned bwysigrwydd trawsnewid asedau cymunedol, a chyfeiriodd y Grŵp Llywio at ddatblygu hybiau cymunedol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr nad yw fframwaith strategol ar gyfer darparu asedau diwylliannol yn gweithio oni bai fod yr asedau'n ategu ei gilydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymunedol, bod modd i'r celfyddydau leihau dibyniaeth y gymuned ar wasanaethau statudol ac, yn aml, mae modd iddyn nhw wella lles y gymuned hefyd.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned am ddarparu trosolwg manwl i'r Grŵp Llywio a diolchodd i'r Aelodau am eu hadborth.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar yr 17 Rhagfyr 2019 mewn perthynas â throsglwyddo ased gymunedol - Canolfan Gelf y Miwni.

**23 Diweddariad o ran y Rhaglen ac Uchafbwyntiau Tymor y Gwanwyn yn Theatrau RhCT**

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â thymor y theatr hyd yma, yn ogystal â'r achlysuron sydd i ddod yn theatrau RhCT.

Clywodd yr Aelodau fod Theatrau RhCT wedi cyd-gynhyrchu taith gydag AdLib Cymru, sef 'An Evening with Shane Williams' a bod nifer o theatrau wedi nodi cynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu tocynnau am y tro cyntaf, ac yn dweud ei wedi bod yn dymor llwyddiannus hyd yma. Clywodd yr Aelodau fod gan docynnau fel hyn ffi o £20 y tocyn, ac roedd aelodau'r gymuned leol o'r farn fod hyn yn resymol. Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd at berfformiad diweddar Theatrau RhCT 'The Night Porter', a dywedodd wrth y Grŵp Llywio ei fod wedi cael croeso mawr gan aelodau'r gymuned. Cafodd tri pherfformiad ei gynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr, gan ddenu 170 o ymwelwyr o bob cwr o Gymru ac o gefndiroedd amrywiol iawn. Dywedodd y Rheolwr wrth y Grŵp Llywio fod y gwasanaeth wedi derbyn 74 o ffurflenni adborth gwerthuso yn dilyn y perfformiadau yma, sy'n dangos bod y perfformiadau wedi ennyn ymateb da.

Parhaodd y trafodaethau a chyfeiriodd Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd at y cynnydd cadarnhaol o ran lansio Stiwdio 1 ddiwedd mis Chwefror yn Theatr y Parc a'r Dâr. Cafodd y Grŵp Llywio hefyd ei atgoffa am Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022, a'r gwaith y mae Theatrau RhCT yn ei wneud er mwyn paratoi ar ei chyfer. I gloi, aeth y Rheolwr ati i atgoffa'r Grŵp Llywio o'r tymor sydd i ddod a'r rhaglen achlysuron sydd ar y gweill.

Cafwyd trafodaeth, a gofynnodd un Aelod a oedd gan Theatrau RhCT unrhyw gynlluniau i annog athrawon i ymgysylltu â'r rhaglen gelf leol. Dywedodd Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd wrth y Grŵp y bydd Theatrau RhCT yn parhau i weithio'n agos i ddatblygu rhaglen bellach o

achlysuron gydag ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr am y diweddariad, gan nodi ei fod e'n edrych ymlaen at weld arlwy'r gwanwyn yn Theatrau RhCT.

**24 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod Eitem 5, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**25 Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru**

Rhoddodd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant adroddiad i'r Grŵp Llywio ynglŷn â chais Gwasanaeth y Celfyddydau am Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru a'r hyn y bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio arnyn nhw yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol y byddai adborth a sylwadau'r Grŵp Llywio yn cael eu hadrodd i'r Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mawrth er mwyn llywio ei benderfyniad.

**26 Prosiect Forté**

Rhoddodd Cydlynydd y Diwydiant Cerdd adroddiad i'r Grŵp Llywio ar gynnydd Prosiect Forte a chynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol nodi cynnwys yr adroddiad ynghylch Prosiect Forte a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

**27 Chairs Closing Remarks**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddod, yn ogystal â'u hatgoffa bod croeso iddyn nhw ymweld â Pharlwr y Maer i weld ei bensaernïaeth wreiddiol ar ôl i'r holl waith ddod i ben.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.43 pm**

**Y Cynghorydd R. Lewis**
**Cadeirydd.**